# Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd

## Canolfan Asesu Drenewydd

### Cyfeiriad

Plas Dolerw Conference Centre
Dolguan West
Milford Road
Newtown
Powys
SY16 2EH

### Oriau agor

9:00yb i 5:00yh

### Nodiadau o'r Ganolfan hon

Byddwch yn mynd i mewn i'r adeilad drwy ddrysau dwbl sydd angen eu gwthio'n agored. Defnyddiwch y gloch os oes angen cymorth arnoch.

Nid oes derbynnydd, ond bydd y gwarchodwr diogelwch yn rhoi gwybod i'r aseswr eich bod wedi cyrraedd. Mae'r ystafell asesu wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ac mae toiled hygyrch ar gael.

Darperir mynediad â ramp i'r prif ddrysau. Mae parcio i bobl anabl ar gael yn uniongyrchol o flaen Plas Dolerw, er bod parcio arall yn gyfyngedig.

09/2025_SY16 2EH_WELSH_LP

## Cyfarwyddiadau ar drên

Yr orsaf drên agosaf yw Gorsaf y Drenewydd, sydd tua 1 filltir o'r ganolfan asesu – tua 20 munud ar droed.

Am fanylion gwasanaeth trên, ewch i https://www.nationalrail.co.uk/stations.

## Cyfarwyddiadau ar fws

Mae'r ganolfan asesu yn cael ei gwasanaethu gan lwybrau bws 2, 3, 5, 31, FD, X20 ac X20A. Y safle bws agosaf yw Carrs Lane, safle MS7, sydd tua 0.1 filltir o'r ganolfan. Mae bysiau 6, 6A a 37 hefyd yn stopio ar y Stryd Fawr, safle BS16, sydd tua 100 troedfedd o'r lleoliad.

Am wybodaeth am fysiau, ewch i: https://www.traveline.info.

## Cyfarwyddiadau ar gar

O Wrecsam neu Y Trallwng, dilynwch yr A483 drwy'r Drenewydd, gan basio mannau lleol tan eich bod yn cyrraedd goleuadau traffig. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i'r gylchfan, yna ewch yn syth ymlaen tuag at Aberhafesp. O Aberhonddu neu Llandrindod, dilynwch yr A483 drwy'r Drenewydd i'r goleuadau traffig ar New Road. Trowch i'r chwith a pharhewch heibio Oriel Davies a Argos. Gallwch barcio yn y maes parcio Awdurdod Lleol yma neu barhau dros Afon Hafren i'r gylchfan a throi i'r chwith tuag at Aberhafesp. Mae'r ffordd i Plas Dolerw tua 200 metr (650 troedfedd) ar y chwith. Mae arwydd coch mawr wedi'i farcio 'Plas Dolerw' ac arwydd melyn ar gyfer 'Ysgol St Mary' wrth y fynedfa.

Manylion cywir ar adeg argraffu, Medi 2025.

Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd yn cael ei ddarparu gan Capita ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau

**www.haas.capita.co.uk/cy**